Ar ei Liwt ei Hun - Ymchwiliadau Estynedig - Ar gyfer cyrff dan awdurdodaeth

Cyflwyniad

Mae'r Ombwdsmon yn gallu cynnal dau fath o ymchwiliad ar ei liwt ei hun:

- Estyniad i ymchwiliad presennol i gŵyn a ddygwyd gan aelod o'r cyhoedd: neu
- Ymchwiliad ehangach annibynnol nad yw'n ymwneud ag unigolyn penodol neu gŵyn a gafwyd

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut gall yr Ombwdsmon ddefnyddio ei bwerau estynedig i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun o dan Adran 4 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun ehangach yma.

Beth all yr Ombwdsmon ei wneud

Mae meini prawf yr Ombwdsmon ar gyfer ymestyn ymchwiliad yn dweud, os ydy Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad i gŵyn yn barod, a'i fod yn dymuno cychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun i faterion sydd â chysylltiad sylweddol â'r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, bydd yn dechrau ymchwiliad estynedig ar ei liwt ei hun.

Gellir cynnal ymchwiliad estynedig os oes gan yr Ombwdsmon amheuaeth resymol bod cwyn am:

- Un elfen o wasanaeth, a/neu
- Un darparwr gwasanaeth

Gyda chysylltiad agos â:

- Achos posibl arall o gamweinyddu systemig neu o fethiant gwasanaeth, a/neu
- Darparwr gwasanaeth cysylltiedig arall

A:

- Achos sy'n golygu defnyddio crebwyll proffesiynol mewn cyd-destun iechyd neu ofal cymdeithasol – bod anghyfiawnder systemig wedi bodoli o ganlyniad i'r crebwyll proffesiynol hwnnw
- Rhaid bod dechrau ymchwiliad er budd y cyhoedd

Mae materion sy'n debygol o gael eu cynnwys o dan "gamweinyddu systemig/methiant gwasanaeth neu anghyfiawnder systemig" yn cynnwys y canlynol:

- methiant sydd ddim i'w weld wedi digwydd o ganlyniad i ddigwyddiad "untro" ond sydd wedi digwydd o ganlyniad i fethiant ehangach yng ngweithdrefnau, prosesau neu systemau'r corff cyhoeddus
- methiant yn nulliau neu weithdrefnau'r corff cyhoeddus a allai achosi anghyfiawnder i nifer o bobl.
- methiant ehangach o ran dull neu weithdrefn sydd i'w weld yn cael ei dderbyn neu ei gymeradwyo gan y corff cyhoeddus

Mae materion sy'n debygol o fod 'er budd y cyhoedd' yn cynnwys y canlynol:

- mater sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd a neu'n fater sydd eisoes o bryder i'r Ombwdsmon.
- mater sy'n ymwneud â chamddefnydd grym gan gorff cyhoeddus yn erbyn unigolyn
- os ydy 'bregusrwydd' neu amgylchiadau arbennig yr achwynydd neu'r grŵp o achwynwyr yn awgrymu y byddai ymyrraeth yr Ombwdsmon o fudd iddyn nhw

Efallai y bydd yr Ombwdsmon eisiau ymestyn neu fynd ag ymchwiliad byw i gyfeiriad cysylltiedig arall gan archwilio cofnodion, cyngor proffesiynol a thystiolaeth arall sy'n nodi pryderon y tu hwnt i'r rheini yn y gŵyn a dderbyniwyd, sy'n bodloni'r meini prawf.

Pan fydd yr Ombwdsmon o'r farn bod angen ymchwiliad estynedig ar ei liwt ei hun, rhoddir gwybod i'r corff cyhoeddus dan sylw a'r achwynydd, a bydd cyfle i wneud sylwadau a/neu gyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio.

Pan fydd yr Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad estynedig, bydd yn cael ei reoli yn unol â phrosesau trin cwynion presennol yr Ombwdsmon.

Beth na all yr Ombwdsmon ei wneud

- Ymestyn cwyn nad yw'n destun ymchwiliad
- Ymestyn ymchwiliad i ystyried materion na fyddai'n cwrdd ag awdurdodaeth yr Ombwdsmon o ran ymchwilio
- Estyn gwahoddiad sydd ddim yn diwallu meini prawf menter yr Ombwdsmon

Materion i'w cadw mewn cof

Os ydy'r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a bod y rheoliadau 'Gweithio i Wella' yn berthnasol, rhoddir cyfle i'r achwynydd fwrw ymlaen â'r mater o dan y rheoliadau hyn fel dewis arall.

Cysylltu â ni

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch chi am ein gwasanaeth, cysylltwch â ni:

holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203 Mae ein llinell ffôn ar agor rhwng 10yb-4yp